Robert Ambrose Jones, ‘Emrys ap Iwan’, 1848–1906

Gweinidog (MC), llenor a beirniad llenyddol

“Ni faidd neb ddweud nad oes ganddo amser i weddïo
nac i weithio; canys y mae hynny yr un peth â dywedyd . . .
fod Duw wedi ei osod ef mewn amgylchiadau sy’n
ei rwystro i ogoneddu Duw.”

Emrys ap Iwan

Ganwyd Robert Ambrose Jones ar 24 Mawrth 1851 ger Abergele lle roedd ei dad yn arddwr ym Mryn Aber. Ef oedd mab hynaf John a Maria Jones. Ar ôl gadael yr ysgol fe aeth i weithio mewn siop ddillad yn Lerpwl ond ymhen blwyddyn dychwelodd i fro ei febyd fel garddwr ym Modelwyddan. Dechreuodd bregethu’n ddeunaw oed ac fe aeth i’r Athrofa yn y Bala lle’r oedd Pulston Jones, Iolo Caernarfon a Griffith Ellis yn gyd-fyfyrwyr iddo. Wedi gorffen ei gwrs yn y coleg bu’n cadw ysgol yn Rhuallt, ac am dri mis yn gofalu am eglwys Saesneg yng Nghaergwrle ger Wrecsam. Bu ganddo ddiddordeb yn Ewrop a’r cyfandir trwy gydol ei oes, ac un rheswm am hynny oedd bod ei hen nain yn Ffrances oedd yn gweini yn Hen Wrych, Abergele, ac a briododd y pen garddwr. Aeth dramor i ddysgu Ffrangeg ac Almaeneg a bu’n athro Saesneg yn Lausanne, Bonn a Giessen (1874). Daeth adref am ychydig ym 1876 ond dychwelodd i dreulio rhai misoedd ar y cyfandir yn Heidelberg, Bonn, a Giessen.

Ysgrifennodd lythyrau yn ddiwyd i’r cyfnodolion Cymraeg ar bynciau llosg y dydd ac ymddangosodd y rhan fwyaf ohonynt yn *Y Faner* a’r *Genhinen* o dan benawdau fel ‘Bully’, ‘Taffy’ a ‘Paddy’, ‘Gair at rieni Cymreig’ a ‘Wele dy Dduwiau o Walia’. Ymddangosodd erthyglau ganddo hefyd yn *Y Gwyddoniadur*.

Gwrthododd y Methodistiaid Calfinaidd ei ordeinio’n weinidog yng Nghymdeithasfa Llanidloes ym 1881. Y rheswm am

hynny oedd ei fod yn gwrthwynebu'n chwyrn eu polisi'r o agor eglwysi Saesneg mewn ardaloedd Cymraeg. Yr oedd yn gas ganddo daeogrwydd ieithyddol y Cymry a'r hyn a elwid ganddo yn Saisaddoliaeth, ac oherwydd hynny bu gwrthdrawiad rhyngddo a hoelion wyth y Methodistiaid, megis Dr Lewis Edwards, Y Bala. Fe'i hordeiniwyd yn y diwedd yn yr Wyddgrug ym 1883. Bu'n weinidog ar eglwysi yn Rhuthun, Trefnant a Rhewl (1900) yn Nyffryn Clwyd weddill ei oes. Ysgrifennodd yn ddiwyd trwy'r blynyddoedd a chyhoeddwyd llyfr gramadeg Cymraeg o'i waith ym 1881, a'i argraffiad rhad o *Gweledigaethau y Bardd Cwsc* ym1898. Oherwydd ei agweddau arloesol mewn llawer maes a'i arddull bigog, edrychid arno â chryn ddrwgdybiaeth gan rai o'i gyfoedion. Mewn gwirionedd dim ond ar ôl ei farwolaeth y daeth clod iddo ac y sylweddolwyd gwerth ei waith ysgrifenedig ac arwyddocâd ei weledigaeth ynglŷn â Chymru â'r Gymraeg.

Gwir y gair, os mynn glod, bydd farw. Un o'i brif amcanion oedd adfer hunanbarch a hyder y genedl Gymreig ac yr oedd yn barod i ddadlau ei ochr yn y cylchoedd enwadol a gwleidyddol. Ymhlith llyfrau eraill, cyhoeddwyd wedi ei farw ddwy gyfrol o'i *Homiliau* a thair cyfrol o'i erthyglau gan y Clwb Llyfrau Cymreig (1837–40). Cyfrannodd hefyd fel beirniad llenyddol a cheisiodd amlinellu ein traddodiad rhyddieithol clasurol, gan bwysleisio'r angen i ysgrifennu Cymraeg coeth a chyhyrog. Bu farw yn Rhewl 6 Ionawr 1906 ac yno y claddwyd ei weddillion.